**Cyfeirnod:** IR870

**Dyddiad cyhoeddi:** 21 Ebrill 2023

# Llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i Lywodraeth Cymru yn Nhachwedd 2020

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch cais am wybodaeth dyddiedig 14 Ebrill 2023 yn gofyn am "**gopi o'r llythyr sydd wedi'i grybwyll [yn llythyr yr Archwilydd Cyffredinol at Adam Price ar 6 Ebrill 2023] a anfonwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol i Lywodraeth Cymru yn Nhachwedd 2020 os gwelwch yn dda? Yn ogystal, a allem gael copi o ymateb Llywodraeth Cymru i'r llythyr hwnnw ac unrhyw ohebiaeth berthnasol arall?".**

Wele yn atodedig, copi o'r llythyrau'r ceiswyd.

Yr eiddoch yn gywir,

Swyddog Gwybodaeth

24 Heol y Gadeirlan / 24 Cathedral Road
Caerdydd / Cardiff
CF11 9LJ
Ffôn / Tel: 029 2032 0500
Ffacs / Fax: 029 2032 0600
Ffôn testun / Textphone: 029 2032 0660
post@archwilio.cymru / info@audit.wales
www.archwilio.cymru / www.audit.wales

Dr Andrew Goodall CBE
Cyfarwyddwr Cyffredinol – Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/
Prif Weithredwr GIG Cymru

**Cyfeirnod:** AC/233/caf
**Dyddiad cyhoeddi:** 26 Tachwedd 2020

Annwyl Andrew

# Trafodaethau teirochrog BIP Betsi Cadwaladr

Gobeithio eich bod yn cadw'n iawn a'ch bod chi a'ch cydweithwyr yn yr Adran yn ymdopi o dan yr amgylchiadau digynsail rydym yn parhau i gael ein hunain ynddynt.

Rwy'n ysgrifennu yn dilyn datganiad llafar y Gweinidog ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn sesiwn lawn y Senedd ar 24 Tachwedd. Yn anffodus, dim ond ychydig cyn i'r Gweinidog ei gyflwyno y cawsom weld y datganiad felly nid oedd cyfle i gynnig unrhyw farn ar ei gynnwys. Pe bai cyfle o'r fath wedi cael ei gynnig, byddem wedi gofyn i'r datganiad adlewyrchu'n gliriach mai swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n darparu unrhyw gyngor i'r Gweinidog ar y statws uwchgyfeirio, wedi'i lywio gan drafodaethau y bwrdd crwn teirochrog. Mae hwn yn wahaniaeth cynnil ond pwysig iawn, o gymharu â'r Gweinidog yn cael ei gynghori'n uniongyrchol gan y grŵp teirochrog. Mae'n debyg y byddwch yn cofio y bu sawl achlysur blaenorol pan fu'n rhaid i ni ofyn am i'r pwynt hwn gael ei egluro mewn gohebiaeth fewnol neu allanol sy'n llifo o'r broses deirochrog.

Cafodd y ceisiadau blaenorol hynny eu gwreiddio yn y ffaith na allaf i fel yr Archwilydd Cyffredinol, na staff Archwilio Cymru sy'n gweithredu ar fy rhan gynghori Gweinidogion yn uniongyrchol. Byddai gwneud hynny'n peryglu'r annibyniaeth sy'n rhan hanfodol o swydd a swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru. Wrth ymateb i gwestiynau ar ei ddatganiad yn ystod y sesiwn lawn, rwy'n ymwybodol fod y Gweinidog wedi gwneud sawl cyfeiriad at y cyngor annibynnol a gafodd gan y grŵp teirochrog, ac mae'n rhaid i mi ddweud bod hynny wedi gwneud i mi deimlo braidd yn anghyfforddus am y rhesymau yr wyf newydd eu nodi.

Mae ei gwneud hi'n glir mai swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n darparu cyngor ar statws uwchgyfeirio cyrff y GIG yn ffordd ddefnyddiol ac angenrheidiol o ymdrin â

sefyllfaoedd pryd na cheir barn a rennir yn gyffredinol o amgylch y bwrdd teirochrog. Rwy'n deall, er bod y trafodaethau teirochrog diweddar ar statws uwchgyfeirio BIP Betsi Cadwaladr wedi adlewyrchu barn gyffredin ynghylch yr effaith andwyol y mae'r label mesurau arbennig yn ei chael ar y Bwrdd Iechyd erbyn hyn, mynegwyd rhai safbwyntiau gwahanol ynghylch a ddylai'r Bwrdd Iechyd aros mewn mesurau arbennig yn sefydliadol, neu ar gyfer gwasanaethau penodol fel iechyd meddwl. O safbwynt Archwilio Cymru, byddwch yn gwybod bod gennym bryderon parhaus am allu'r Bwrdd Iechyd i ddatblygu a chytuno ar gynllun tymor canolig cymeradwy a chytbwys yn ariannol a strategaeth glinigol ategol. Mae natur dros dro nifer o uwch swyddi arweinyddiaeth hefyd yn peri pryder i ni. Mae nodiadau diwygiedig y drafodaeth deirochrog ar 13 Tachwedd yn ddefnyddiol er mwyn gwneud hynny'n glir. Roedd y nodiadau hynny hefyd yn glir mai swyddogion Llywodraeth Cymru fyddai'n argymell isgyfeirio. Yn anffodus, ni wnaeth yr eglurder hwnnw drosglwyddo i ddatganiad y Gweinidog, nac yn wir y drafodaeth lawn a'i ddilynodd.

Rwyf i ac uwch staff Archwilio Cymru sy'n cymryd rhan yn y trafodaethau teirochrog yn gweld bod y broses yn hynod werthfawr wrth ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o'r heriau sy'n wynebu cyrff GIG unigol a pha gamau y gallai fod angen eu cymryd pan fydd sefydliadau'n wynebu problemau. Byddwn yn gobeithio bod ein cyfraniadau at drafodaethau'r bwrdd crwn yn cael eu hystyried yn ddefnyddiol ac rwy'n awyddus ein bod yn parhau i gymryd rhan yn y broses. Fodd bynnag, rwy'n credu bod angen i'r trafodaethau sydd wedi dechrau myfyrio ar sut mae'r fframwaith yn gweithio, ystyried y pryderon yr wyf wedi'u nodi yma. Byddai'n ddefnyddiol ac yn galonogol i mi wybod y bydd hyn yn digwydd o ran y fframwaith ei hun, a'r prosesau a'r llif cyfathrebu sy'n gysylltiedig ag ef.

Byddwn yn croesawu eich ymateb i'r uchod maes o law, gan dderbyn wrth gwrs pa mor brysur ydych chi a'ch cydweithwyr ar hyn o bryd gyda'r ymatebion parhaus i'r pandemig.

Yn gywir



**ADRIAN CROMPTON**

**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

cc: Simon Dean, Dirprwy Brif Weithredwr, GIG Cymru

Alun Jones, Prif Weithredwr Dros Dro, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Stuart Fitzgerald, Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Dave Thomas, Cyfarwyddwr Archwilio, Archwilio Cymru

**Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/**
**Prif Weithredwr GIG Cymru**
Grŵp **Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Director General Health and Social Services/**
**NHS Wales Chief Executive**
**Health and Social Services Group**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Ein Cyf: AG/SB

30 Tachwedd 2020

Annwyl Adrian

**Trafodaethau Teirochrog BIP Betsi Cadwaladr**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 26 Tachwedd 2020.

Mae'r gefnogaeth i'r broses deirochrog gan Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi ei chroesawu ochr yn ochr â swyddogion Llywodraeth Cymru. Fel yr amlinellwch, credaf fod hyn wedi cynrychioli gwir gryfder y ffordd y mae'r broses uwchgyfeirio wedi ei chyflawni yng Nghymru ers ei sefydlu. Rwy'n cytuno bod cyfnewid gwybodaeth a barn yr holl gyfranogwyr yn agored yn hynod werthfawr i'r broses ac ystyriaethau eraill.

Er bod gennym wahanol swyddogaethau system, rwyf wedi ceisio sicrhau bod y mecanwaith teirochrog yn gweithredu mewn modd agored a heriol. Rwyf wedi arwain a chadeirio'r holl gyfarfodydd ers sefydlu'r broses uwchgyfeirio hyd yma a, gyda'r cysondeb hwn, rwy'n gobeithio fy mod wedi hwyluso amgylchedd priodol a gonest er mwyn i'r holl gynrychiolwyr gyfrannu eu barn. Credaf fod y fframwaith wedi gwella ein goruchwyliaeth a'n hasesiad o sefydliadau iechyd ledled Cymru mewn gwirionedd ac wedi caniatáu i bryderon ynghylch perfformiad ac ymateb sefydliadau gael eu nodi ac yna i fod yn destun cefnogaeth a monitro priodol. Yn amlwg, mae'r monitro a'r cyswllt â sefydliadau yn fwy arwyddocaol o ran yr ymyrraeth wedi'i dargedu a'r lefelau mesurau arbennig. Mae hefyd yn bwysig cofnodi mai bwriad y fframwaith uwchgyfeirio yw caniatáu i sefydliadau symud i fyny ac i lawr y fframwaith yn briodol yn unol â'u hamgylchiadau a thystiolaeth o bryderon neu gynnydd. Mae'r rhai ohonom sy'n ymwneud â'r broses uwchgyfeirio yn gwybod mai'r bwriad yw ei bod yn fecanwaith cefnogol ar gyfer sefydliadau, beth bynnag yw'r lefel uwchgyfeirio a ddyrennir.

Rwy'n glir iawn na allwch chi fel yr Archwilydd Cyffredinol, na staff Archwilio Cymru sy'n gweithredu ar eich rhan gynghori Gweinidogion yn uniongyrchol a bod yn rhaid i Archwilio Cymru gyflawni swyddogaeth annibynnol.

Rydych chi'n gywir nad yw'r broses adolygu a chynghori yn golygu bod penderfyniadau'n cael eu gwneud gan y grŵp teirochrog. Bu hyn yn bwynt trafod mewn cyfarfodydd teirochrog blaenorol ac fel y gwnaethoch gyfeirio, mae nodiadau drafft ein cyfarfod diwethaf yn cydnabod yn gywir bod swyddogion Llywodraeth Cymru yn gwneud yr argymhelliad penodol, yn sgil cywair a chynnwys y cyfarfodydd teirochrog priodol. Rwyf bob amser wedi parchu'r trafodaethau a byddwn yn gobeithio y bydd unrhyw argymhelliad sy'n dilyn yn briodol yng nghyd-destun yr adolygiad.

Er na fyddai'n briodol rhannu cynnwys datganiadau drafft gan y Gweinidog, gan eu bod yn faterion i Lywodraeth Cymru, byddwch yn ymwybodol ein bod wedi gofyn am farn ar iaith a therminoleg gan Archwilio Cymru a AGIC a oedd yn cyfrannu at y Cyngor Gweinidogol. Roeddem yn ddiolchgar am yr holl bwyntiau hyn ac yn eu derbyn ac rwy'n gobeithio y byddai hyn wedi rhoi rhywfaint o sicrwydd yr adlewyrchir y broses deirochrog yn briodol. Er eglurder, wrth gwrs, nid oedd hyn yn golygu bod unrhyw gyfraniad gan Archwilio Cymru mewn cysylltiad â'r argymhelliad.

Gan nodi ymatebion i gwestiynau, a'r gwahaniaeth cynnil ond pwysig a wnewch mewn cysylltiad â swyddogaethau, byddaf wrth gwrs yn amlygu'r pwynt ymhellach i'r Gweinidog o ran sicrhau y gwelir bod cyfranogiad AGIC ac Archwilio Cymru yn y broses deirochrog yn wahanol i'r argymhelliad penodol a ddaw i'r fei gan swyddogion yn dilyn y broses.

Mae nifer o flynyddoedd ers i ni ddechrau defnyddio'r fframwaith uwchgyfeirio ac mae amrywiaeth o sefydliadau wedi cael eu huwchgyfeirio a'u hisgyfeirio wrth ei gymhwyso. Rydym eisoes eleni wedi cynnal adolygiad defnyddiol o'r fframwaith uwchgyfeirio ar draws Llywodraeth Cymru, Archwilio Cymru ac AGIC, gyda barn, fel arfer, yn cael ei rhannu'n agored ar sut y gallwn wneud i'r broses bwysig hon weithio'n well yn y dyfodol. Rydym yn bwriadu diweddaru'r fframwaith uwchgyfeirio yn 2021-22, wedi'i lywio gan ddatblygiad cynigion gweithredol y GIG, boed hynny fel sefydliad ar wahân fel y cynlluniwyd yn wreiddiol neu un a addaswyd i gyfrif am y profiad o oruchwylio'r GIG yn ystod ymateb y pandemig. Rwy'n falch iawn y byddai'r pryderon a nodwyd gennych yn cael eu cynnwys mewn unrhyw fframwaith diwygiedig, gan gynnwys eglurder ynghylch swyddogaethau priodol y rhai sy'n cymryd rhan.

Hoffwn ailadrodd mai'r ymddiriedaeth a'r perthnasoedd yr ydym wedi'u sefydlu drwy'r broses hon sydd wedi sicrhau bod y broses adolygu yn seiliedig ar gywair a chynnwys priodol. Rwy'n ddiolchgar iawn am gyfranogiad Archwilio Cymru, gan nodi pwysigrwydd ei swyddogaeth annibynnol, ac o fy safbwynt i, mae'r broses yn fwy ystyriol ac effeithiol gyda'r cyfranogiad hwn nag y byddai hebddo. Rwy'n ddiolchgar i holl staff Archwilio Cymru sydd wedi cefnogi'r broses deirochrog o'r dechrau, dan arweiniad Mike a Dave, ac rwy'n gobeithio y byddai'r holl aelodau'n teimlo bod y broses wedi bod yn bwysig wrth oruchwylio GIG Cymru.

Yn gywir

**Dr Andrew Goodall CBE**